Rhif: **WG18406**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Rheoliadau drafft Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2013

Dyddiad cyhoeddi: **15 Ebrill 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **24 Mai 2013**

# Rheoliadau drafft Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2013

**Trosolwg**

Mae'r rheoliadau drafft hyn yn gwneud nifer o newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2011 o ganlyniad i adran 94 yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Y Ddeddf") a ddaw i rym ar 4 Mai 2013.

Mae Adran 94 o'r Ddeddf yn galluogi rhieni i ofyn am hyd at dri chyfarfod mewn blwyddyn ysgol gyda chorff llywodraethu eu hysgol, gan ddisodli'r gofyn blaenorol i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod rhieni blynyddol.

O dan y cynigion hyn yr ymgynghorir yn eu cylch byddai gofyn i gorff llywodraethu ysgol gynnwys gwybodaeth benodol yn ymwneud â'i ddyletswydd i gynnal cyfarfod rhieni o dan adran 94 o'r Ddeddf, yn ei adroddiad blynyddol i rieni. Mae'r rheoliadau drafft yn pennu'r wybodaeth y mae'n rhaid i adroddiad blynyddol ei chynnwys.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **24 Mai 2013** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2011 i'w gweld yn www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1939/made

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i'w gweld yn www.legislation.gov.uk/anaw/2013/1/section/94/enacted

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Y Gangen Llywodraethu Ysgolion
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 6051
Ffacs: 029 2080 1044

© Hawlfraint y Goron 2013
WG18406

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2011 ("y Prif Reoliadau") yn nodi pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn adroddiadau llywodraethwyr o dan adran 30 o Ddeddf Addysg 2002. Mae hyn yn cynnwys gofynion mewn perthynas â'r iaith y mae'n rhaid cynhyrchu adroddiadau ynddi, a gofynion ar gyfer darparu copïau i rieni o adroddiadau o'r fath a threfnu eu bod ar gael i'w harchwilio yn yr ysgol.

1.2 Cyplysir y Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2013 arfaethedig ("Rheoliadau 2013") fel Atodiad i'r ddogfen ymgynghori hon ac maent yn gwneud nifer o newidiadau i'r Prif Reoliadau. Mae hyn o ganlyniad i adran 94 yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ('Y Ddeddf') a ddaw i rym ar 4 Mai 2013. Mae'r newidiadau hyn yn gysylltiedig â'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn yr adroddiadau a gofynion o ran darparu copïau i rieni.

1.3. Mae Adran 94 o'r Ddeddf yn galluogi rhieni i ofyn am hyd at dri chyfarfod mewn blwyddyn ysgol gyda chorff llywodraethu eu hysgol. Mae hyn yn disodli'r gofyn blaenorol am i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod rhieni blynyddol.

1.4 Mae'r trefniadau newydd yn golygu, yn hytrach na bod yn rhaid i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod rhieni blynyddol, bod gan rieni hawl i ofyn am gyfarfod i drafod materion sydd o bwys iddynt. Gellir defnyddio'r hawl hwn gan rieni hyd at dair gwaith mewn blwyddyn ysgol, ar yr amod mai diben y cyfarfod yw trafod materion cysylltiedig â'r ysgol, nid cynnydd a chyflawniad disgyblion unigol na chwynion yn erbyn aelod o'r staff neu'r corff llywodraethu.

1.5 O dan y cynigion hyn yr ymgynghorir yn eu cylch byddai gofyn i gorff llywodraethu ysgol gynnwys gwybodaeth benodol yn ymwneud â'i ddyletswydd i gynnal cyfarfod rhieni o dan adran 94 o'r Ddeddf, yn ei adroddiad blynyddol i rieni.

## 2. Trosolwg o'r diwygiadau arfaethedig i reoliadau 2011

2.1. Mae Rheoliad 2 (paragraffau 2, 3(a), 3(b) a 4) o Reoliadau arfaethedig 2013 yn tynnu allan gyfeiriadau at y ddyletswydd i gynnal cyfarfod rhieni blynyddol yn y Prif Reoliadau.

2.2 Mae Rheoliad 2 (paragraff 3c) o Reoliadau 2013 yn ychwanegu at y rhestr o eithriadau yn Rheoliad 5 o'r Prif Reoliadau o pryd y mae'n rhaid darparu copi am ddim o adroddiad y llywodraethwyr i rieni disgyblion cofrestredig. Bellach bydd hyn yn cynnwys pan fo'r corff llywodraethu wedi darparu copïau i rieni o'r wybodaeth ofynnol yn ymwneud â'i ddyletswydd i gynnal cyfarfodydd o dan adran 94 o'r Ddeddf ac wedi hysbysu rhieni o'u hawl i gael copi o'r adroddiad llawn os gwânt gais ysgrifenedig. Trafodir manylion yr wybodaeth ofynnol isod.

2.3 Mae Rheoliad 2 (paragraffau 5 a 6) yn diwygio'r Prif Reoliadau i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu gynnwys gwybodaeth benodol yn ei adroddiad blynyddol yn ymwneud â'i ddyletswydd i gynnal cyfarfod rhieni o dan adran 94. Mae hyn yn cynnwys dyddiad a lleoliad y cyfarfod, y rhesymau a roddwyd gan rieni am ofyn am y cyfarfod, enwau'r personau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar wahân i rai oedd

yno fel rhieni (gan gynnwys llywodraethwyr yr ysgol, staff yr ysgol a staff yr awdurdod lleol) a'r nifer o rieni a oedd yn bresennol. Dylid cynnwys hefyd ddisgrifiad o'r materion a drafodwyd, unrhyw gamau gweithredu y penderfynodd y corff llywodraethu eu cymryd, a chanlyniad y camau a gymerwyd, os cymerwyd camau, gan y corff llywodraethu o ganlyniad i'r materion hynny.

2.4 Mae Rheoliad 2 (paragraff 6) yn darparu pan fo rhieni wedi gofyn am gyfarfod ond nas cynhaliwyd bod yn rhaid i'r adroddiad gynnwys datganiad yn nodi hynny, a chynnwys manylion am y rheswm a roddodd y rhieni am ofyn am y cyfarfod a pham nas cynhaliwyd. Os na chynhaliwyd cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ysgol o dan adran 94, rhaid i'r adroddiad hefyd nodi hynny.

## 3. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mewn perthynas â Rheoliadau drafft 2013 byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu eich barn ar y cwestiynau canlynol. Gofynnir i chi ddefnyddio'r templed a ddarperir yn yr ymgynghoriad hwn i gofnodi eich atebion.